Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

BWRDD COMISIYNU GOGLEDD CYMRU

CEFNDIR

Mae'r Bwrdd Comisiynu'n cael ei gyd-gadeirio gan Gyfarwyddwyr ac yn adrodd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob yn ail fis i roi trosolwg o amrediad o feysydd comisiynu strategol, ar gyfer 2017/18, mae ei gynllun gwaith yn cynnwys y canlyniadau canlynol:

- Ffurfioli trefniadau Comisiynu Partneriaeth ar draws y rhanbarth
- Mae'r farchnad cartrefi preswyl a nyrsio pobl hŷn wedi'i sefydlogi ar draws y rhanbarth
  - Mae cyflenwad a dewis digonol i gwrdd â'r galw
  - Mae gwasanaethau yn ddiogel ac yn cynnig ansawdd bywyd
  - Mae cyn lleied â phosibl o gartrefi dan Bryder Cynyddol
- Sefydlogir y farchnad Gofal Cartref a chefnogir darparwyr i ddatblygu eu darpariaeth
- Mae yna amrediad addas o ofal preswyl gwerth am arian i Blant a Phobl Ifanc a mwy o gapasiti i fodloni angen cyfredol ac wedi'i ragamcanu, nad ydyw'n cael ei fodloni
- Cefnogi datblygu'r gweithlu mewn gwasanaethau blaenoriaeth a gomisiynir
- Mae Rheolaeth Contract ac Ansawdd yn effeithlon ac yn effeithiol ac wedi'i gydgysylltu gymaint â phosibl ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwneir y mwyaf o les poblogaeth gogledd Cymru
- Mae Bwrdd Comisiynu Gogledd Cymru'n cynnal trosolwg o waith comisiynu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill, ac yn cyfrannu atynt

BLAENORIAETHAU'R BWRDD

Mae gan y Bwrdd 4 prif brosiect ar y gweill yng Ngogledd Cymru:

v) Sefydlogi marchnad cartrefI gofal pobl hŷn
vi) Sefydlu fframwaith deinamig o ddarparwyr gofal cartref cymeradwy o ansawdd uchel
vii) Sefydlu fframwaith deinamig o ddarparwyr gofal cartref cymeradwy o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
viii) Gweithgor ffioedd gofal

GRŴP LLYWIO FFORWM GWERTH CYMDEITHASOL GOGLEDD CYMRU

Mae Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod Awdurdodau Lleol, gyda phartneriaid Bwrdd Iechyd, yn ystyried mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, opsiynau dan arweiniad defnyddwyr a thrydydd sector fel rhan o unrhyw benderfyniad i gynllunio, hyrwyddo a chyflawni gofal a chefnogaeth a gwasanaethau ataliol. Mae hyn yn gofyn am newid diwylliant o'r ffordd y mae gwasanaethau wedi'u cyflawni, i ddull sy'n seiliedig ar bartneriaethau, a pherthynas gydradd rhwng ymarferwyr a phobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a Gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

Mae grŵp llywio wedi'i sefydlu yng Ngogledd Cymru i gefnogi darparwyr wedi'u seilio ar werth cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o'r rhaglen gyffredin ac i rannu a datblygu arfer da.

Mae gan y Grŵp Llywio gysylltiadau hefyd â phrosiect 'Care to Co-operate' Canolfan Cydweithredol Cymru, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a Gwerth Cymdeithasol Cymru (ymgynghoriaeth a weithredir drwy Fantell Gwynedd [CVC] sy'n cefnogi sefydliadau i fesur gwerth cymdeithasol a/neu elw cymdeithasol o fuddsoddi).

I gael rhagor o wybodaeth:

Maria Bell

Rheolwr Busnes Rhanbarthol - Comisiynu
Regional Business Manager - Commissioning
Ffôn / Tel: 07919 164933 / 01824 706011
Ebost / Email: maria.bell@sirddinbych.gov.uk / maria.bell@denbighshire.gov.uk